Y Sioe
ADDYSG
Genedlaethol

Yn ymgorffori'r Sioe AAA/ADY

11 MEH 2027

Venue Cymru Llandudno

LLYFRYN Y SIOE

50% I FFWRDD
Archebion grŵp o 10+
nes 23 Ebrill 2027.

Ewch i'n gwefan!



2027



Gweithio gyda:

NSM Training & Consultancy

Prifysgol Bangor University

Agored Cymru

NAHT The School Leaders' Union

Cyngor Llyfrau Cymru Books Council of Wales

Urdd

www.sioeaddysggenedlaethol.com | einir@sioeaddysggenedlaethol.com| 01766496830

RHESWM I FYNYCHU'R SIOE!



Mae'r ysgol wedi defnyddio diwrnod HMS llynedd a'r flwyddyn flaenorol i fynychu'r Sioe Addysg yn Llandudno er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon a chymorthyddion yr ysgol.
Mae'r seminarau wedi bod yn arbennig o ddiddorol a hwyliog ac mae'r dewis wedi bod yn eang ac o ganlyniad wedi ein galluogi i adnabod meysydd perthnasol i gefnogi ein blaenoriaethau ysgol e.e. seminarau sy'n cefnogi iechyd a lles staff.

Mae'n ***ddiwrnod gwych sydd yn rhoi cyfle i staff gwahanol ysgolion ddod at ei gilydd am sgwrs a phaned yn ystod yr amser rhydd rhwng y seminarau ac hefyd i allu crwydro'r stondinau.***

Wrth ***grwydro'r stondinau llynedd cefais gyfle i gyfarfod Osian a Catrin yn stondin Ein Llais Ni.*** *Yn dilyn y sgwrs fe gawsom fel ysgol ein hysgogi i fod yn rhan o Gynllun 'Ein Llais Ni' er mwyn datblygu sgiliau iaith a llafaredd yn yr ysgol. Mae'r cynllun yma yn rhan greiddiol o'n blaenoriaeth llafaredd eleni.*







YDYCH CHI'N ARCHEBU AR GYFER EICH YSGOL, COLEG NEU FEITHRINFA GYFAN? RYDYM WEDI GWNEUD Y BROSES YN SYML.

1. Sganiwch y côd QR neu ewch i'r ddolen isod i gael mynediad at y ffurflen archebu
   https://nationaleducationshow.com/llandudno-group-booking-form/?lang=cy
2. Dylai pob mynychwr lenwi rhan uchaf y ffurflen a cylchu y seminarau o'u dewis.
3. Yn olaf, sganiwch y ffurflenni wedi'u cwblhau a'u hanfon yn ôl at einir@sioeaddysggenedlaethol.com

PWYSIG!

Byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau gan Eventbrite o fewn pythefnos i gyflwyno eich ffurflen gofrestru, felly **cadwch yr e-bost hwn yn ddiogel.**

Bydd angen i chi sganio'r côd QR o'ch e-bost cadarnhau gwreiddiol pan fyddwch yn cyrraedd y sioe.

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn gwirio hyn ymlaen llaw ac yn cysylltu â ni ar unwaith os nad ydych wedi derbyn eich e-bost cadarnhau archeb.

Os nad oes gennych eich e-bost cadarnhau / côd QR, bydd angen i chi ymweld â'r 'Ddesg Wybodaeth' ar y diwrnod, â allai ohirio eich mynediad.

DIWRNOD Y SIOE! RYDYM NI WEDI GWNEUD DIWRNOD Y SIOE YN HAWDD I CHI!

Pan fyddwch yn sganio eich côd QR wrth y ddesg gofrestru, bydd eich bathodyn yn cael ei argraffu ar eich cyfer. Ar gefn eich bathodyn, fe welwch dabl defnyddiol sy'n dangos teitlau eich seminarau a rhifau'r ystafelloedd.
Defnyddiwch hwn fel eich canllaw personol i lywio o amgylch y lleoliad a chyrraedd eich seminarau'n rhwydd.

AWGRYM DA
Os yw rhif eich ystafell seminar yn dechrau gyda'r rhif 1, mae ar y llawr cyntaf!
Os yw rhif eich ystafell seminar yn dechrau gyda'r rhif 2, mae ar yr ail lawr!

Seminarau a Siaradwyr

Darllen am Seminarau

Ffurflen Archebu Grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

09:00 - 09:50

Hapusrwydd yn Gyntaf: 14 Arfer sy'n Tanseilio Eich Llawenydd a Sut i'w Adfer!

Ydych chi erioed wedi meddwl y gallai rhai o'ch arferion bob dydd fod yn tanseilio eich llawenydd, eich egni a'ch cymhelliant heb i chi sylweddoli?
Mae seminar Hapusrwydd yn Gyntaf yn brofiad pwerus, wedi'i gynllunio i helpu unigolion i adennill eu llawenydd, adfer eu hegni a gwella eu perfformiad personol a phroffesiynol. Mae'r sesiwn yn archwilio'r arferion dyddiol, y pwysau a'r patrymau meddwl sy'n effeithio'n dawel, ddiarwybod, ar lesiant, cymhelliant ac effeithiolrwydd.
Drwy gymysgedd o hiwmor, stori, niwrowyddoniaeth a strategaethau ymarferol, byddwch yn gadael yn teimlo'n fwy positif, yn llawn egni ac yn barod i wneud mwy o'r pethau sy'n dod â llawenydd i'ch bywyd, i ddiogelu eu llawenydd, ailgysylltu â'u pwrpas, creu ffiniau iachach a ffynnu mewn bywyd, gwaith a pherthnasoedd.



Cyflwynir gan:

Action Jackson
Strategydd Hapusrwydd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

Daliwch y Rhaff: Troi cynghreiriaeth yn weithredu bob dydd

Sesiwn bwerus a chofiadwy sy'n canolbwyntio ar symud o fwriadau da i gynghreiriaeth ymarferol, gan helpu staff i herio allgáu, cefnogi cydweithwyr ac eirioli dros ddisgyblion a all deimlo eu bod ar yr ymylon neu heb eu cynnwys yn llawn. Mae cynghreiriaeth yn fwy nag ewyllys da; mae'n ymwneud â'r dewis bob dydd i sylwi ar allgáu, codi llais a chefnogi eraill. Yn y seminar bwerus ac ymarferol hon, mae Joanne Lockwood yn archwilio beth mae'n ei olygu i "ddal y rhaff" dros gydweithwyr a dysgwyr a all deimlo eu bod ar yr ymylon neu nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed. Drwy straeon perthnasol ac arweiniad ymarferol, bydd cyfranogwyr yn dysgu sut i symud y tu hwnt i gefnogaeth oddefol, herio ymddygiad amhriodol yn hyderus, a chreu amgylcheddau dysgu mwy diogel a chynhwysol. Byddant yn gadael â'r wybodaeth a'r hyder i droi empathi yn weithredu ac i helpu i feithrin diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi ac yn perthyn.



Cyflwynir gan:

Joanne Lockwood
Cyfarwyddwr / Prif Weithredwr / Sylfaenydd
SEE Change Happen

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

Y Creigiau Cudd: Sut mae rhagfarnau gwybyddol yn dylanwadu ar benderfyniadau diogelu

Pam mae gweithwyr proffesiynol medrus ac ymroddedig weithiau'n methu adnabod pryderon diogelu sydd, wrth edrych yn ôl, yn ymddangos yn amlwg? Mae'r seminar hon yn archwilio'r rhagfarnau gwybyddol cudd a all ddylanwadu ar farn broffesiynol a phenderfyniadau diogelu, gan gynnwys tuedd i gadarnhau, meddwl grŵp, tuedd i awdurdod, tuedd argaeledd a'r effaith halo. Gan ddefnyddio enghreifftiau go iawn o addysg ac ymarfer diogelu, bydd cyfranogwyr yn archwilio sut y gall y "creigiau cudd" hyn effeithio ar y broses benderfynu, adrodd a chwilfrydedd proffesiynol. Bydd mynychwyr yn ennill strategaethau ymarferol ar gyfer herio tybiaethau, gwella trafodaethau tîm a chreu diwylliant lle mae pryderon yn cael eu harchwilio'n drylwyr yn hytrach na chael eu hegluro ymaith.



Cyflwynir gan:

Delyth Lynch
Cyfarwyddwr Diogelu

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

Y Tu Hwnt i Flinder Proffesiynol: Sut i Greu Ysgol Lle Mae Staff yn Ffynnu, yn Aros ac ar eu Gorau

Nid mater llesiant yn unig yw lles athrawon bellach; mae'n flaenoriaeth arweinyddol sy'n cael effaith uniongyrchol ar recriwtio, cadw staff, presenoldeb a deilliannau dysgwyr. Wrth i lwyth gwaith gynyddu a gofynion emosiynol barhau i dyfu, mae llawer o ysgolion yn gofyn yr un cwestiwn: Sut gallwn gefnogi ein staff mewn ffordd sy'n arwain at newid cynaliadwy, yn hytrach nag ateb tymor byr yn unig? Mae'r seminar ymarferol hon yn archwilio sut y gall arweinwyr ysgolion symud y tu hwnt i fentrau llesiant unigol a meithrin diwylliant lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u galluogi i ffynnu. Byddwch yn darganfod strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cryfhau gwydnwch, yn hybu morâl ac yn meithrin diwylliant gwaith cadarnhaol, heb ychwanegu at lwyth gwaith staff.



Cyflwynir gan:

Kelly Hannaghan
Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Llesiant, Mind Work Matters.

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

SEMINAR ADY

Ymddygiad yw Cyfathrebu: Deall y neges y tu ôl i'r ymddygiad

Beth sy'n digwydd pan nad yw ymddygiad yn herio, ond yn arwydd o drallod neu ofid? Mae nifer cynyddol o blant a phobl ifanc yn mynegi gorbryder, gorfod synhwyraidd a gorlethu emosiynol drwy wrthodiad, diffodd, gwrthod neilltuol neu ddadreoli. Bydd y sesiwn hon yn archwilio ymddygiad o safbwynt hunanreoleiddio'r system nerfol, diogelwch emosiynol a niwroamrywiaeth, gan helpu cyfranogwyr i wahaniaethu rhwng heriau cydymffurfio a thrallod go iawn. Gan ddefnyddio enghreifftiau ymarferol o ysgolion a theuluoedd, bydd Laura yn rhannu strategaethau sy'n lleihau gwrthdaro, cryfhau perthnasoedd a chreu amgylcheddau sy'n cynnig diogelwch emosiynol lle gall dysgwyr ymgysylltu, hunanreoleiddio a dysgu.



Cyflwynir gan:

Laura Jackson
Dysgu Gyda'n Gilydd: Atebion ADY wedi'u Teilwra

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

09:00 - 09:50

Malio am Yma: Cynefin, Chwilfrydedd a Chwricwlwm sy'n Cyfrif

Beth pe bai'r cwricwlwm yn dechrau ar garreg y drws?
Mae'r gweithdy ymarferol hwn ar Botheredness® yn archwilio cysyniad cynefin drwy le, pobl, straeon a chwilfrydedd. Gan ddefnyddio enghreifftiau ymarferol o'r ystafell ddosbarth, bydd Hywel Roberts yn dangos sut y gall stryd gyffredin, tirwedd, gwrthrych, ffotograff neu stori leol fod yn fan cychwyn ar gyfer dysgu cyfoethog ar draws y cwricwlwm. Bydd cyfranogwyr yn trafod, dychmygu, holi a datblygu syniadau gyda'i gilydd, gan brofi strategaethau y gallant eu rhoi ar waith yn eu hysgolion ar unwaith. Wedi'i wreiddio'n gadarn yn egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, mae'r sesiwn hon yn ymwneud â helpu dysgwyr i ddeall bod cynefin yn bwysig, a bod eu straeon yn rhan o'r cwricwlwm.



Cyflwynir gan:

Hywel Roberts
ATHRO-AWDUR-SIARADWR

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Seminarau a Siaradwyr

Darllen am Seminarau

Ffurflen Archebu Grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

09:00 - 09:50

SEMINAR ADY

Hunanreoleiddio, Cymhelliant ac Ymgysylltiad: Ailfeddwl ynghylch parodrwydd i ddysgu mewn cyd-destunau ADY/SEND

Beth sy'n digwydd pan fo gan ddysgwr y gallu gwybyddol i ddysgu, ond nad yw eto mewn cyflwr o hunanreoleiddio, wedi'i gymell nac yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r dysgu?
Mae'r sesiwn ymarferol hon yn archwilio'r berthynas rhwng hunanreoleiddio, cymhelliant, ymgysylltiad â dysgu a chynnydd dysgwyr. Byddwn yn ystyried sut y gall gwahaniaethau synhwyraidd, cyfathrebu, perthnasoedd a gofynion gwybyddol ddylanwadu ar allu dysgwr i gymryd rhan mewn dysgu. Byddwn hefyd yn herio'r rhagdybiaeth fod diffyg ymgysylltiad bob amser yn arwydd o anallu neu ymddygiad heriol. Bydd cyfranogwyr yn archwilio addasiadau ymarferol sy'n cynnal disgwyliadau uchel ac uchelgais, wrth leihau rhwystrau i ddysgu. Y nod yw datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion dysgwyr fel y gellir darparu cymorth sy'n hyrwyddo cyfranogiad, cynnydd ac ymdeimlad o berthyn i bob dysgwr.



Cyflwynir gan:

Emma Noel Pinnock
Grwp Essential Education Group

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

Nid y Gyllideb sy'n Dal Eich Ysgol yn Ôl... Dyma yw'r Broblem...

Byddai mwy o arian o fudd i unrhyw ysgol, ac nid oes neb yn awgrymu'n wahanol. Ond wrth i bwysau ariannol gynnyddu, ac er bod tystiolaeth yn dangos nad yw cyllid ychwanegol ar ei ben ei hun yn gwarantu gwelliant parhaus, beth arall all wneud gwahaniaeth?

Mae un ffactor sy'n gallu cael mwy o effaith ar welliant ysgol na mwy o arian yn unig, ac mae eisoes ar gael ymhob ysgol. Bydd y seminar ysgogol ac ymarferol hon yn datgelu beth yw'r dylanwad hwnnw, yn archwilio'r dystiolaeth sy'n sail iddo ac yn dangos sut y gellir ei ddefnyddio yn effeithiol. Bydd cyfranogwyr hefyd yn darganfod cyfrifiad syml y gallant ei ddefnyddio i gryfhau sefyllfa ariannol eu hysgol, hyd yn oed cyn diwedd y sesiwn.



Cyflwynir gan:

Sonia Gil
Prif Weithredwr Heads Up Limited

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

CYDAG

Addysgu a Dysgu- Ysgol Llanfairpwll

Edrych yn benodol ar ddulliau cynllunio'r ysgol gan enghreifftio unedau o waith ym mlwyddyn 5 a 6 sydd yn arwain at ddatblygu dysgwyr hyderus, annibynnol ochr yn ochr a chodi sgiliau llythrennedd.
Rwyf yn athrawes ym mlwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Llanfairpwll ac yn gyfrifol am ddatblygiad addysgu a dysgu'r ysgol gyfan. Sesiwn fydd yn edrych ar ddulliau cynllunio yr ydym wedi eu datblygu ac yn eu defnyddio yma yn yr ysgol. Byddwn yn craffu ar unedau penodol o waith yr ydym wedi eu creu gan egluro'r dulliau addysgu a dysgu yr ydym wedi eu datblygu a'u hyrwyddo gan gyfeirio at yr ymchwil sydd yn sail i'n syniadau.



Cyflwynir gan:

Ffion Saynor
Pennaeth Cynorthwyol ac Athrawes Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Llanfairpwll

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

CYDAG

Darparu ar gyfer y disgybl cyfan

Blaenoriaeth Ysgol y Moelwyn yw sicrhau amgylchedd cynhaliol lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi ac yn cael y gefnogaeth sydd ei angen i wneud cynnydd. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gynnig darpariaeth gynhwysfawr a chynhwysol sy'n galluogi pob unigolyn i ddatblygu'n ddysgwr llwyddiannus ac yn berson hyderus, cyfrifol a chydwybodol. Bydd y cyflwyniad yn cynnig cipolwg o'r strategaethau mae'r ysgol yn defnyddio er mwyn cyrraedd y nod yma, strategaethau sydd wedi eu adnabod fel arfer dda mewn ymweliad gan Estyn.



Cyflwynir gan:

Eleri Moss
Pennaeth Ysgol y Moelwyn

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Os Nad yw Cynllun A yn Gweithio - Beth yw Cynllun B? Strategaethau ymarferol pan nad yw dulliau rheoli ymddygiad traddodiadol yn gweithio

Beth ydych chi'n ei wneud pan nad yw dulliau rheoli ymddygiad traddodiadol yn gweithio? Mae'r sesiwn ymarferol hon yn archwilio pam mae rhai dysgwyr yn ei chael hi'n anodd rheoli eu hemosiynau a'u hymddygiad, gan gynnwys y rhai ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (ICEM). Dewch i archwilio dulliau amgen a strategaethau ymarferol i leihau ymddygiad sy'n herio, meithrin perthnasoedd cadarnhaol a helpu dysgwyr i ymgysylltu'n llwyddiannus â'u dysgu. Bydd y seminar yn cynnig syniadau, strwythurau ac adnoddau ymarferol y gall cyfranogwyr eu rhoi ar waith yn syth.



Cyflwynir gan:

Nicola S. Morgan
Siaradwr TEDx a phrif siaradwr rhyngwladol arobryn, ymgynghorydd addysg rhyngwladol, awdur ac addysgwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Hunanafarnu o Ansawdd Uchel a Gwella Ysgolion

Mae gwella ysgolion yn effeithiol yn cychwyn gyda dealltwriaeth glir o'ch ysgol: beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd angen ei wella a beth ddylai'r camau nesaf fod. Mae'r sesiwn ymarferol hon yn archwilio egwyddorion allweddol hunanfarnu o ansawdd uchel, gan gynnwys beth i'w arfarnu, sut i gasglu tystiolaeth ystyrlon, pwy ddylai gyfrannu at y broses a phryd. Bydd cyfranogwyr yn archwilio sut i droi arfarnu yn gamau gweithredu pwrpasol, nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant a datblygu Cynllun Gwella Ysgol (CGY) effeithiol sy'n ysgogi gwelliant cynaliadwy ac yn gwella deilliannau dysgwyr.



Cyflwynir gan:

Gareth Coombes
Pennaeth profiadol, Arolygydd Ysgolion, Ymgynghorydd Addysg ac Arbenigwr Arweinyddiaeth

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Seminarau a Siaradwyr

Darllen am Seminarau

Ffurflen Archebu Grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

Pam eu bod yn gwybod beth i'w wneud... ond yn dal methu ei wneud?

Yn aml, mae athrawon yn camddehongli anawsterau sgiliau swyddogaeth weithredol fel diffyg cymhelliant, diogi neu ddiffyg ymdrech. Bydd y sesiwn ymarferol hon yn archwilio'r prosesau gwybyddol cudd sy'n sail i gynllunio, cof gweithredol, cychwyn tasgau, trefnu, hunanreoleiddio emosiynol a meddwl yn hyblyg. Gan dynnu ar ymchwil gyfredol ac enghreifftiau go iawn o'r ystafell ddosbarth, bydd cyfranogwyr yn datblygu dealltwriaeth o pam nad yw "gwybod" o reidrwydd yn arwain at "wneud", pam y gall tasgau sy'n ymddangos yn syml deimlo'n llethol, a sut y gall addasiadau bach ond effeithiol wella ymgysylltiad yn sylweddol. Bydd y sesiwn yn cynnig strategaethau ymarferol y gellir eu defnyddio ar unwaith i leihau'r baich gwybyddol, datblygu annibyniaeth, a chefnogi dysgwyr niwroamrywiol i gael mynediad at ddysgu yn fwy llwyddiannus.



Cyflwynir gan:

Laura Jackson

Dysgu Gyda'n Gilydd: Atebion ADY wedi'u Teilwra

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

10:30 - 11:20

Mwy na Dim ond Awyr Iach: Llesiant yn y Dosbarth Awyr Agored

Beth sy'n digwydd pan fo llesiant yn rhan annatod o addysgu a dysgu, yn hytrach nag yn weithgaredd awyr agored achlysurol? Wedi'i lywio gan waith gydag athrawon ledled y Deyrnas Unedig, mae'r seminar hon yn archwilio sut y gall dysgu yn yr awyr agored gefnogi dysgu affeithiol, perthynol, corfforedig ac ecolegol. Bydd yn cyflwyno model addysgegol Dysgu yn yr Awyr Agored er Mwyn Cael Ystyr Affeithiol (Learning Outdoors for Affective Meaning), sef fframwaith sy'n helpu athrawon i gynllunio profiadau dysgu pwrpasol ac ystyrlon, yn hytrach na symud gwersi y tu allan yn unig. Bydd cyfranogwyr yn ystyried sut y gall ymdeimlad o le, ansicrwydd, perthnasoedd a her ystyrlon gyfoethogi'r profiad dysgu a chryfhau llesiant. Bydd y sesiwn yn cyfuno sail ymchwil gadarn â strategaethau a syniadau ymarferol ar gyfer athrawon ar draws gwahanol gyfnodau, pynciau a lleoliadau addysgol, gan gynnwys ysgolion sydd â mynediad cyfyngedig at fannau gwyrdd.



Cyflwynir gan:

Dr. Graham French

Uwch-ddarlithydd mewn Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

O Ddrama i Bresenoldeb: System Weithredu Newydd ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgol

Nid diffyg syniadau sy'n her i arweinyddiaeth ysgolion, ond diffyg presenoldeb. O dan bwysau diwrnod ysgol prysur, mae'n hawdd cael ein dal mewn cylchoedd o feio, amddiffyn neu geisio datrys problemau sy'n fwy priodol i eraill fynd i'r afael â nhw. Bydd y seminar ymarferol, egniol hon yn cyflwyno egwyddorion craidd Arweinyddiaeth Ymwybodol (Conscious Leadership), gan eich helpu i adnabod ymatebion llai defnyddiol a dewis ffyrdd mwy adeiladol o symud ymlaen Byddwch yn gadael gyda dau fframwaith syml a chofiadwy y gallwch eu defnyddio ar unwaith: Y cyntaf yw model Uwchben ac Islaw'r Llinell, sy'n eich helpu i adnabod eich meddylfryd a'ch ymatebion yn y foment. Yr ail yw'r symudiad o'r Triongl Drama i fodel TED* (Y Crëwr, Y Sialenswr a'r Coets), gan eich galluogi i arwain eich hun ac eraill gyda mwy o eglurder a llai o wrthdaro. Cewch brofi sesiwn rhyngweithiol go iawn, nid darlith. Cewch gyfle i fyfyrio, gweithio gyda phartner, profi ymarfer presenoldeb byr a gadael gyda cham gweithredu clir i'w roi ar waith yn ystod yr wythnos ganlynol.



Cyflwynir gan:

Julie Rees

Hyfforddwr Arweinyddiaeth Weithredol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Dod â'r Wefr yn Ôl!

Bydd y sesiwn hon yn cynnig strategaethau ymarferol i ailgynnau chwilfrydedd yn yr ystafell ddosbarth a gwneud i ddysgwyr fod eisiau dysgu a bod dysgwyr ac athrawon yn teimlo'r wefr eto. Bydd cyfranogwyr yn gadael gyda strategaethau syml, hyblyg ac addasadwy sy'n gwneud dysgu'n bwrpasol, yn gyfranogol ac yn anodd ei anwybyddu, gan ailgysylltu â'r rhesymau a'ch denodd at addysgu yn y lle cyntaf. Bydd cyfleoedd i roi cynnig ar dechnegau addysgu creadigol sy'n tanio dychymyg a diddordeb dysgwyr o bob oed, ynghyd â strategaethau arloesol i adfywio hyd yn oed y pynciau a'r sgiliau mwyaf sych ac anniddorol.

Byddwn yn archwilio ffyrdd o ysgogi ac egnioli dysgwyr goddefol, drwy weithgareddau wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob dysgwr yn cymryd rhan weithredol. Byddwn hefyd yn ystyried dulliau o adfer gwerth a balchder mewn gweithio'n galed, technegau i feithrin hyder ymhlith y dysgwyr mwyaf amharod, a ffyrdd o gefnogi dysgu effeithiol heb orddibynnu ar lais yr athro.



Cyflwynir gan:

Issabella Wallace

Siaradwr ar Addysg ac Awdur

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Gwella Darllen gyda Deallusrwydd Artiffisial: Strategaethau diogel ac ymarferol ar gyfer pob dysgwr

Bydd y sesiwn hon yn archwilio sut y gall athrawon ar draws pob cyd-destun addysgol ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) yn ddiogel ac yn bwrpasol i godi safonau ar gyfer pob dysgwr. Byddwn yn dadansoddi Safonau Diogelwch Cynnyrch y DfE ochr yn ochr â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan egluro eu hystyr a sut i farnu a yw adnodd yn eu bodloni cyn ei ddefnyddio. Gan adeiladu ar ganlyniadau diweddar PISA Cymru mewn darllen a chanfyddiadau ymchwil a ariannwyd gan y Prosiect Ymholiad Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP). Byddwn yn ystyried lle gall DA wneud gwahaniaeth gwirioneddol, o addasu testunau ar gyfer gwahanol oedrannau darllen i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd arddangosiadau ymarferol yn dangos sut y gall defnyddio DA yn ddiogel arbed amser cynllunio, personoli darpariaeth ddarllen a chynyddu ymgysylltiad dysgwyr.



Cyflwynir gan:

Faye Palmer

Eiriolwr Cymunedol dros Teachmate Cymru

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

Y 5 Strategaeth Allweddol ar gyfer Arwain Ystafell Ddosbarth Niwroamrywiol

Mae pob ystafell ddosbarth yn niwroamrywiol, ond sut gall addysgwyr greu amgylcheddau dysgu lle mae anghenion gwahanol yn cael eu deall, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi?

Yn y seminar ryngweithiol hon, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, byddwn yn edrych ar bum strategaeth allweddol: addasu dulliau cyfathrebu, creu amgylcheddau dysgu cefnogol, cefnogi hunanreoleiddio sylw, cryfhau gweithrediadau gweithredol a'r cof, a lleihau pryder ymhlith dysgwyr. Bydd y sesiwn yn cynnig syniadau, strwythurau a gweithgareddau ymarferol y gall cyfranogwyr eu rhoi ar waith yn syth yn eu hystafelloedd dosbarth



Cyflwynir gan:

Colin Foley

Neurodiversity Training UK

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

Seminarau a Siaradwyr

Darllen am Seminarau

Ffurflen Archebu Grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

10:30 - 11:20 - TU ALLAN

Mwy na Dysgu Tu Allan: Gwneud yr Amgylchedd Awyr Agored yn Rhan Weithredol o'r Dysgu

Beth sy'n digwydd pan fyddwn yn symud y tu hwnt i gynnal gwersi yn yr awyr agored ac yn dechrau defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel partner gweithredol yn y dysgu?
Yn y gweithdy ymarferol a bywiog hwn, bydd y cyfranogwyr yn profi ystod o heriau sy'n seiliedig ar y cwricwlwm, gan archwilio meysydd megis mathemateg, llythrennedd, gwyddoniaeth a chreadigrwydd. Drwy brofiadau gweithredol ac ymgysylltiol, byddwn yn archwilio sut y gall yr amgylchedd ei hun lywio'r dysgu, tanio chwilfrydedd a chreu cyfleoedd ystyrlon i blant feddwl, ymchwilio a datrys problemau. Nid oes angen coetir nac offer arbenigol, dim ond parodrwydd i weld y mannau awyr agored sydd eisoes gennym drwy lygaid newydd. **(Nodwch fod y seminar hon yn cael ei hailadrodd am 12.00. Bydd y seminar hon tu allan)**



Cyflwynir gan:

Carol Murdoch
Addysgwraig awyr agored, storïwr ac awdures arobryn

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

CYDAG

Dysgu yn gyntaf, technoleg yn ail

Gyda chymaint o offer digidol ar gael, sut ydym yn gwybod pryd mae technoleg yn ychwanegu gwerth at ddysgu? Bydd y seminar hon yn edrych ar sut gallwn wneud dewisiadau doeth ynghylch defnyddio technoleg. Byddem yn trafod sut y gall ymarferwyr wneud dewisiadau pwrpasol am dechnoleg, gan sicrhau bod anghenion dysgwyr a bwriadau addysgiadol yn llywio'r defnydd o offer digidol. Gan dynnu ar raglen Addysgu Digidol gyda Hyder, byddwn yn rhannu syniadau ac enghreifftiau ymarferol i helpu ymarferwyr wneud yr penderfyniadau hyderus a phwrpasol.



Cyflwynir gan:

Daron Harris
STEM Learning

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Gosod Sylfaen Trochi Iaith yn y Blynyddoedd Cynnar a phwysigrwydd pontio ieithyddol gyda Ysgolion Cynradd.

Dysgu am y Dull Trochi, sut mae Cynllun Croesi'r Bont yn cefnogi trochi plant ifanc yn y Gymraeg, a deall pwysigrwydd a dulliau pontio effeithiol rhwng y Cylch Meithrin a'r Ysgol Gynradd.



Cyflwynir gan:

Lou Stevens Jones
Mudiad Meithrin

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Pan Fo Anghytuno: Ymdrin â Sgyrsiau Anodd yn Hyderus

Mae sgyrsiau anodd yn rhan anochel o weithio ym maes addysg, ond gall gwybod sut i fynd i'r afael a hwy wneud byd o wahaniaeth. Mae'r seminar ymarferol hon yn archwilio sut i ymateb yn hyderus gyda phobl anodd, mynd i'r afael â sgyrsiau heriol, a lleihau gwrthdaro cyn iddo waethygu.

Bydd cyfranogwyr yn archwilio technegau cyfathrebu effeithiol a strategaethau ymarferol ar gyfer rheoli emosiynau, meithrin ymddiriedaeth a delio â gwrthwynebiad. Bydd y sesiwn hefyd yn ystyried sut i ddylanwadu'n gadarnhaol ar eraill, dod o hyd i atebion a sicrhau canlyniadau gwell, hyd yn oed yn y sefyllfaoedd mwyaf heriol.



Cyflwynir gan:

Nicola S. Morgan
Siaradwr TEDx a phrif siaradwr rhyngwladol arobryn, ymgynghorydd addysg rhyngwladol, awdur ac addysgwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Creu Velcro mewn Diwylliant Diogelu

Anaml iawn y bydd methiannau difrifol ym maes diogelu yn digwydd o ganlyniad i un penderfyniad gwael. Yn amlach, maent yn datblygu'n raddol drwy fân groesi ffiniau, tybiaethau heb eu herio a mannau dall diwylliannol sy'n cael eu normaleiddio'n raddol
Gan dynnu ar ymchwil gyfredol, bydd y seminar hon yn helpu cyfranogwyr i adnabod y risgiau, y ffactorau bregusrwydd a'r heriau diogelu sy'n unigryw i'w lleoliad eu hunain. Byddwn yn archwilio sut y gall diwylliant diogelu cryf weithredu fel y "Velcro" sy'n atal arferion gwael rhag cydio a dod yn rhan o'r drefn. Bydd cyfranogwyr yn gadael gyda dulliau ac adnoddau ymarferol i asesu risg, herio hunanfodlonrwydd a chryfhau diwylliant diogelu cadarn, lle mae pryderon yn cael eu hadnabod, eu trafod a gweithredu arnynt yn brydlon.



Cyflwynir gan:

Delyth Lynch
Cyfarwyddwr Diogelu

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

Arweinyddiaeth Feiddgar ar gyfer Cynhwysiant: Pan fo diwallu anghenion pob disgybl yn galw am wneud pethau'n wahanol

Nid yw arweinyddiaeth effeithiol ym maes ADY yn ymwneud â chael yr holl atebion, ond â bod yn barod i fyfyrio, herio rhagdybiaethau a gofyn y cwestiynau sy'n arwain at well canlyniadau i ddysgwyr. Mae'r sesiwn hon yn archwilio sut y gall arweinwyr a Chydlynwyr ADY greu diwylliant lle mae cynhwysiant, tegwch a pherthyn yn gyfrifoldeb ar y cyd i bawb. Byddwn yn ystyried sut i gryfhau hyder staff, hyrwyddo hyblygrwydd o fewn y cwricwlwm, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chydbwyso anghenion unigol dysgwyr â blaenoriaethau'r ysgol gyfan. Bydd cyfranogwyr yn archwilio sut y gall systemau ac arferion sefydledig greu rhwystrau i gyfranogiad a chynnydd yn anfwriadol, a sut y gall arweinyddiaeth fyfyriol sy'n seiliedig ar werthoedd gefnogi amgylcheddau dysgu mwy cynhwysol. Mae cynhwysiant yn gofyn am fwy na bwriadau da yn unig; weithiau mae'n gofyn am y dewrder i feddwl ac i weithredu'n wahanol.



Cyflwynir gan:

Emma Noel Pinnock
Grŵp Essential Education Group

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

Seminarau a Siaradwyr

Darllen am Seminarau

Ffurflen Archebu Grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

SEMINAR ADY

12:00 - 12:50

Pan Fydd Pob Ymddygiad yn Adrodd Stori: Strategaethau Ymarferol i Gefnogi Dysgwyr ag Anghenion Iechyd Meddwl Cynyddol

Mae ysgolion yn gweld lefelau digynsail o bryder, anawsterau hunanreoleiddio emosiynol, osgoi ysgol ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag anghenion iechyd meddwl nas diwallwyd. Yn aml, athrawon yw'r rhai cyntaf i sylwi pan fo rhywbeth o'i le, ond mae llawer yn teimlo nad oes ganddynt yr hyder i ymateb yn effeithiol ochr yn ochr â gofynion yr ystafell ddosbarth.
Bydd y seminar ddiddorol ac ymarferol hon yn cynnig strategaethau syml, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i staff ysgolion i'w helpu i adnabod arwyddion cynnar o drallod emosiynol, ymateb yn hyderus a chreu amgylcheddau dysgu sy'n ddiogel yn emosiynol lle gall dysgwyr ffynnu. Bydd cyfranogwyr yn archwilio sut y gall newidiadau bach i ymarfer bob dydd gael effaith sylweddol ar ymddygiad, presenoldeb, llesiant a dysgu.



Cyflwynir gan:

Kelly Hannaghan
Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Llesiant,
Mind Work Matters.

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Mewnwelediadau gan Athro Awtistig: Diwallu Anghenion Plant Awtistig mewn Ysgolion

Sut brofiad yw'r ysgol mewn gwirionedd i blentyn awtistig, a beth all addysgwyr ei wneud i wella'r profiad hwnnw?

Bydd y seminar yma yn edrych ar brofiad addysg o safbwynt person awtistig ac yn archwilio ffyrdd o wella'r profiad o ysgol i blant a phobl ifanc sy'n dysgu ac yn profi'r byd mewn ffordd wahanol. Mae'r pynciau'n cynnwys pwysigrwydd galluogi disgyblion awtistig i gael mynediad at ddysgu ar eu telerau eu hunain a sut i hwyluso hyn, y grefft o wneud addasiadau ystyrlon, a hybu hunan-barch plant awtistig a'u hymdeimlad o ddiogelwch yn yr ystafell ddosbarth.



Cyflwynir gan:

Chris Bonnello
Siaradwr Awtistiaeth a Niwroamrywiaeth

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

12:00 - 12:50

Gadewch i Ni Ddweud... Stori, Sgwrs a 'Botheredness' yn y Cwricwlwm i Gymru

Beth sy'n digwydd pan fyddwn yn rhoi rheswm i ddysgwyr falio cyn rhoi'r cwricwlwm iddynt? Yn y sesiwn ymarferol a bywiog hon, mae Hywel Roberts yn archwilio sut y gall stori, sgwrs a dychymyg ddod â'r Cwricwlwm i Gymru yn fyw. Drwy enghreifftiau ymarferol o'r ystafell ddosbarth, bydd cyfranogwyr yn profi dulliau syml Botheredness®, gan gynnwys Gadewch i Ni Ddweud... a Pobl-Lle-Profiad, gan ddarganfod sut y gall cynnwys y cwricwlwm ennyn chwilfrydedd a sbarduno dysgwyr i drafod, archwilio a dyfnhau eu dealltwriaeth. Ceir yma straeon, chwerthin, sgyrsiau pwrpasol a syniadau ymarferol y gellir eu rhoi ar waith ar unwaith. Nid ychwanegu at lwyth gwaith athrawon yw'r bwriad. Yn hytrach, gwneud i'r hyn rydym eisoes yn ei addysgu, olygu mwy.



Cyflwynir gan:


Hywel Roberts
Athro - Awdur - Siaradwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Yr Ystafell Ddosbarth y Maent yn Ei Chofio: Creu Diwylliant y Mae Plant yn Caru Bod yn Rhan Ohono, Heb Golli Eich Hun

Nid oes angen bod yn rhywun arall i greu diwylliant gwych yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n tyfu drwy berthnasoedd cadarnhaol, trefnau cyson, iaith a rennir a'r hyder i adael i ddysgwyr weld pwy ydych chi mewn gwirionedd. Gan dynnu ar dros ddegawd o brofiad mewn dosbarthiadau cynradd, byddaf yn archwilio sut y gall athrawon ddefnyddio eu cryfderau, eu diddordebau a'u personoliaeth eu hunain wrth wahodd dysgwyr i gyd-lunio hunaniaeth gyffredin ar gyfer eu dosbarth. Trwy enghreifftiau ymarferol a myfyrdodau, bydd cyfranogwyr yn dysgu sut i gydbwyso cynhesrwydd, hiwmor ac awdurdod; meithrin ymdeimlad o berthyn; troi'r cyffredin yn gofiadwy; a gwneud yr ystafell ddosbarth yn fan lle mae dysgwyr ac athrawon fel ei gilydd yn mwynhau bod – heb deimlo bod rhaid rhoi sioe bob dydd



Cyflwynir gan:

Jordan Firth
Addysgwr Cynradd, Crëwr Cynnwys a Hyfforddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Deallusrwydd Artiffisial, Perthyn a Dyfodol Addysg Ddynol

Gallai Joanne archwilio sut y gall ysgolion groesawu deallusrwydd artiffisial heb golli ymddiriedaeth, tegwch, cysylltiad dynol nac ymdeimlad o berthyn. Mae deallusrwydd artiffisial yn trawsnewid y ffordd rydym yn addysgu, yn dysgu, yn cyfathrebu ac yn gwneud penderfyniadau, ond ei heriau mwyaf yw rhai dynol, nid rhai technegol. Yn y seminar ysgogol ac ymarferol yma, mae Joanne Lockwood yn archwilio sut y gall arweinwyr addysg gofleidio Deallusrwydd Artiffisial heb golli ymddiriedaeth, tegwch, ymdeimlad o berthyn na chysylltiad dynol. Bydd cyfranogwyr yn ystyried rhagfarn, hygyrchedd, diogelwch seicolegol ac effaith newid ar staff a dysgwyr. Byddant yn gadael gyda chwestiynau ymarferol ac egwyddorion cynhwysol i helpu eu hysgolion i ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn gyfrifol, gan sicrhau ar yr un pryd fod pob unigolyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi ac yn gallu ffynnu.



Cyflwynir gan:

Joanne Lockwood
Cyfarwyddwr / Prif Weithredwr / Sylfaenydd
SEE Change Happen

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50 - TU ALLAN

Mwy na Dysgu Tu Allan: Gwneud yr Amgylchedd Awyr Agored yn Rhan Weithredol o'r Dysgu

Beth sy'n digwydd pan fyddwn yn symud y tu hwnt i gynnal gwersi yn yr awyr agored ac yn dechrau defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel partner gweithredol yn y dysgu?
Yn y gweithdy ymarferol a bywiog hwn, bydd y cyfranogwyr yn profi ystod o heriau sy'n seiliedig ar y cwricwlwm, gan archwilio meysydd megis mathemateg, llythrennedd, gwyddoniaeth a chreadigrwydd. Drwy brofiadau gweithredol ac ymgysylltiol, byddwn yn archwilio sut y gall yr amgylchedd ei hun lywio'r dysgu, tanio chwilfrydedd a chreu cyfleoedd ystyrlon i blant feddwl, ymchwilio a datrys problemau. Nid oes angen coetir nac offer arbenigol, dim ond parodrwydd i weld y mannau awyr agored sydd eisoes gennym drwy lygaid newydd. **(Nodwch fod y seminar hon yn cael ei hailadrodd am 12.00. Bydd y seminar hon tu allan)**



Cyflwynir gan:

Carol Murdoch
Addysgwraig awyr agored, storïwr ac awdures arobryn

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

Darllen am Seminarau

Ffurflen Archebu Grŵp

12:00 - 12:50

CYDAG

Y Gwyddoniaeth a'r Seicoleg tu ol i Ddysgu Ddarllen

Sut mae plant yn dysgu darllen mewn gwirionedd? Yn y seminar hwn, bydd Dr Manon Jones yn archwilio'r wyddoniaeth a'r seicoleg sy'n sail i ddatblygiad darllen, gan edrych ar y prosesau gwybyddol sy'n galluogi plant i symud o adnabod seiniau a geiriau i ddarllen yn fwy rhugl, deallus ac annibynnol. Bydd y sesiwn yn cynnig trosolwg hygyrch ond ymchwil-seiliedig o'r hyn rydym yn ei wybod am ddysgu darllen, ac yn helpu ymarferwyr i ddeall pam mae rhai dulliau addysgu yn fwy effeithiol nag eraill. Bydd hefyd yn ystyried goblygiadau'r dystiolaeth ar gyfer addysgu darllen mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.



Cyflwynir gan:

Yr athro Manon Jones
Prifysgol Cymru Bangor a CA:LON

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Hyder i Ffynnu: Offer Ymarferol i Gefnogi Iechyd a Lles Dysgwyr

Yn y seminar ymarferol a rhyngweithiol hwn, bydd Dyddgu Morgan-Hywel yn archwilio sut y gall addysgwyr feithrin hyder dysgwyr, cryfhau eu gwytnwch a chefnogi eu hiechyd a'u lles drwy ddefnyddio dulliau hyfforddi effeithiol. Gan dynnu ar dros 15 mlynedd o brofiad ym maes addysg, ei gwaith fel hyfforddwr arweinyddiaeth a llesiant, a'i chefndir fel chwaraewraig rygbi ryngwladol dros Gymru, mae Dyddgu yn cynnig persbectif unigryw ar hyder, datblygiad personol a goresgyn heriau. Drwy weithgareddau ymarferol, cwestiynau hyfforddi a chyfleoedd i fyfyrio, bydd cyfranogwyr yn gadael gyda dulliau y gallant eu defnyddio ar unwaith yn yr ystafell ddosbarth i rymuso dysgwyr, annog sgyrsiau cadarnhaol a chreu amgylchedd lle mae gan bob dysgwr yr hyder i ffynnu.



Cyflwynir gan:

Dyddgu Morgan-Hywel
Hyfforddwr Arweinyddiaeth a Llesiant | Addysgwr | Cyn-chwaraewraig Rygbi Ryngwladol Cymru

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

ADHD, Awtisitiaeth a Llythrennedd: Cefnogi Plant a Phobl Ifanc yn yr Ystafell Ddosbarth

Gall gofynion llythrennedd eich ystafell ddosbarth fod yn heriol i blant a phobl ifanc ag ADHD ac awtistiaeth. Bydd y seminar hon yn archwilio'r rhesymau dros hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar systemau sylw a chof gweithredol.
Yn y seminar ryngweithiol hon, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, byddwn yn archwilio strategaethau ymarferol i greu amgylchedd dosbarth sy'n cefnogi datblygiad darllen ac ysgrifennu plant a phobl ifanc ag awtistiaeth a/neu ADHD. Byddwn yn ystyried sut i weithio gyda'r prosesau sy'n ymwneud â sylw a chof gweithredol, cefnogi ymgysylltiad â dysgu, a darparu cymorth ymarferol effeithiol ar gyfer ysgrifennu. Yn dilyn trosolwg byr o'r heriau cyffredin, bydd y seminar yn cynnig syniadau, strwythurau a gweithgareddau ymarferol y gall cyfranogwyr eu rhoi ar waith yn eu hystafelloedd dosbarth y diwrnod canlynol.



Cyflwynir gan:

Colin Foley
Neurodiversity Training UK

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

Emosiynau Mawr, Atebion Ymarferol: Deall y Parthau Rheoleiddio Emosiynol

Mae hunanreoleiddio emosiynol yn chwarae rôl allweddol yn llesiant, ymddygiad ac ymgysylltiad plant â dysgu. Mae'r seminar ymarferol hon yn archwilio sut mae datblygiad yr ymennydd, niwrowahaniaeth ac amgylcheddau dysgu yn dylanwadu ar ymatebion emosiynol. Byddwch yn gadael gyda syniadau ymarferol ac adnoddau y gellir eu rhoi ar waith ar unwaith i greu amgylchedd dysgu tawelach, mwy cefnogol a chynhwysol.



Cyflwynir gan:

Karen Ferguson
Cydlynydd ADY ac Hyfforddwr, NSM Training & Consultancy

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

13:30 - 14:20

Mae Presenoldeb yn Dechrau gydag Ymdeimlad o Berthyn: Strategaethau ymarferol i leihau absenoldeb

Wrth wraidd bob absenoldeb mae dysgwr â'i brofiadau, ei anghenion a'i rwystrau ei hun. Sut y gall ysgolion gyfuno disgwyliadau clir a threfn gyson â'r perthnasoedd a'r gefnogaeth sy'n helpu dysgwyr i fynychu'n rheolaidd? Yn y seminar ymarferol hon, bydd Ian yn tynnu ar ei brofiad fel arweinydd ysgol ac ymgynghorydd gwella ysgolion i archwilio'r cysylltiadau rhwng presenoldeb, ymdeimlad o berthyn, ymddygiad a diogelu. Gan ddefnyddio enghreifftiau o arferion ysgol, bydd yn ystyried sut i nodi patrymau absenoldeb sy'n datblygu a deall y rhwystrau, drwy sgyrsiau â dysgwyr a'u teuluoedd, a chynllunio cymorth wedi'i dargedu, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd cynadleddwyr yn gadael gyda strategaethau ymarferol i gryfhau arferion dyddiol sy'n cefnogi presenoldeb, meithrin partneriaethau adeiladol â theuluoedd, cefnogi dysgwyr sy'n dychwelyd ar ôl cyfnod o absenoldeb, a gwirio a yw ymyriadau yn gwneud gwahaniaeth.



Cyflwynir gan:

Ian Curry
Ymgynghorydd Addysgol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

Paratoi Pobl Ifanc ar gyfer Byd sy'n Newid yn Gyflym: Pob Plentyn yn Wneuthurwr Newid

Sut y gall ysgolion helpu pobl ifanc i ddatblygu empathi, ymdeimlad o gyfrifoldeb a gallu i weithredu, gwaith tîm a'r hyder i greu newid cadarnhaol, gan eu harfogi i ffynnu mewn byd sy'n newid yn gyflym, yn enwedig un sy'n cael ei lunio fwyfwy gan ddeallusrwydd artiffisial (AI).



Cyflwynir gan:

Kelly Davies
Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Ashoka UK

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Seminarau a Siaradwyr

Darllen am Seminarau

Ffurflen Archebu Grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

13:30 - 14:20 - TU ALLAN

Un Tro Allan ar y Cae Chwarae: Does dim rhai bod yn storïwr, ond cael llygad am stori

Sut y gall y mannau o'n cwmpas ysbrydoli straeon? Yn y gweithdy ymarferol a chyfranogol hwn, bydd cyfranogwyr yn profi sut y gall yr awyr agored danio a llunio straeon. Drwy lên gwerin, edrych yn nes ar y byd o'n cwmpas a heriau syml i greu straeon, bydd cyfranogwyr yn darganfod sut y gall mannau cyffredin danio chwilfrydedd, dychymyg a chreadigrwydd. Byddant yn gadael gyda syniadau ymarferol ar gyfer defnyddio storïau yn eu cyd-destunau eu hunain, gan helpu plant i gysylltu â'u cynefin a gweld straeon newydd yn y mannau mwyaf cyfarwydd.



Cyflwynir gan:

Carol Murdoch

Addysgwraig awyr agored, storïwr ac awdures arobryn

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

Pam Nad Yw Copïo Ysgolion Eraill yn Gweithio (Ond Mae Hyn yn ...!)

Rydych :
Wedi bod ar ymweliadau
Wedi gweld yr ysgolion gorau ar waith.
Wedi dychwelyd gyda rhestr o syniadau i'w rhoi ar waith.
Ond pan nad ydynt yn gweithio i chwi?

Nid y syniadau eu hunain yw'r broblem. Mae arweinwyr ysgolion yn benthyca syniadau da gan eraill drwy'r amser. Y broblem yw bod cam hollbwysig rhwng gweld syniad da a'i weithredu yn rhan gynaliadwy o ddiwylliant ysgol, ac mae'r cam hwnnw'n cael ei anwybyddu'n rhy aml. Bydd y sesiwn hon yn datgelu beth yw'r cam allweddol hwnnw trwy enghreifftiau go iawn o syniadau a lwyddodd, y rhai a fu'n fethiant, a beth yn union oedd yn gwneud y gwahaniaeth.



Cyflwynir gan:

Sonia Gill

Prif Weithredwr Heads Up Limited

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

Adeiladu Diwylliant Hyfforddi: Sut i ddefnyddio hyfforddiant i rymuso cydweithwyr a sbarduno gwelliant ysgol gyfan

Bydd y seminar ymarferol hon yn archwilio sut y gall hyfforddiant rymuso cydweithwyr, cryfhau arweinyddiaeth a gwella perfformiad ar draws ysgolion. Darganfyddwch sut y gall penaethiaid ddefnyddio hyfforddiant i gefnogi arweinwyr academaidd, bugeiliol a chynhwysiad; sut y gall uwch arweinwyr drafod y cwricwlwm a data gyda arweinwyr canol, a sut y gall arweinwyr canol ddefnyddio dulliau hyfforddi yn dilyn arsylwadau dysgu ac addysgu. Byddwn hefyd yn ystyried manteision hyfforddi cyfoedion i ymarferwyr. Bydd cyfranogwyr yn dysgu dull systematig o hyfforddi sy'n cynnwys sefydlu nodau a rennir a chynllunio tuag at yn ôl, llunio cwestiynau effeithiol, defnyddio data yn ystyrlon, cydnabod pwysigrwydd bod yn anghywir a datblygu atebion ar y cyd drwy brofi damcaniaethau.



Cyflwynir gan:

Jonathan Ferstenberg

Partner Datblygu Ysgolion, Hyfforddwr ac Hyfforddwr Arweinyddiaeth

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

Cadw i Fyny ynteu Ddal i Fyny? Sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd mewn Mathemateg

Sut gallwn atal bylchau bach mewn dealltwriaeth fathemategol rhag dod yn rhwystrau i ddysgu yn y dyfodol? Mae'r sesiwn ymarferol hon yn archwilio dau ddull cyflenwol: helpu dysgwyr i gadw i fyny drwy addysgu ymatebol, asesu, ailymweld yn bwrpasol a chymorth amserol; a helpu dysgwyr i ddal i fyny pan fo bylchau sylweddol mewn dealltwriaeth eisoes wedi datblygu. Byddwn yn ystyried sut i adnabod camddealltwriaethau'n gynnar, pryd y gall fod angen i ddysgwyr ail-ymweld â dysgu blaenorol er mwyn sicrhau sylfeini mathemategol cadarn, a sut y gall dulliau wedi'u targedu, megis Pont Mathemateg Cymru, ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol. Bydd cyfranogwyr yn gadael gyda strategaethau ymarferol i gefnogi cynnydd ac i ddiwallu anghenion dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o fewn y Cwricwlwm i Gymru.



Cyflwynir gan:

Toni Priddey

Ymgynghorydd Mathemateg - First4Maths Academy

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

Creu a Chynnal yr Amodau i Ffynnu: Dysgu o Ddull sy'n Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Adfydus Plentyndod yng Nghymru

Bydd y sesiwn hon yn ystyried sut y gallwn, drwy fabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma ac ACEs (Profiadau Adfydus Plentyndod) o fewn y system addysg, greu'r amodau sydd eu hangen i feithrin gobaith ymhlith plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'r rhai sy'n gweithio mor galed i'w cefnogi. Y gobaith eu bod yn gallu dysgu, datblygu a meithrin doethineb mewn mannau sydd ag ymdeimlad o ddiogelwch ac sydd yn ddiogel. Mannau sy'n meithrin ac yn cysylltu pobl, yr amgylchedd, ac sy'n ymestyn y tu hwnt i furiau'r sefydliad i hyrwyddo ffordd o fyw sy'n cydnabod, waeth beth fo'r heriau y gall unrhyw un ohonom fod yn eu hwynebu, fod modd eu goresgyn. Gall adfyd a thrawma effeithio unrhyw un ohonom, ond mae'r cyfle i atal niwed a darparu'r gefnogaeth gywir i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn hollbwysig. Gwybodaeth pellach am y seminar ar ein gwefan.



Cyflwynir gan:

Dr Joanne Hopkins

Cyfarwyddwr Rhaglen Profiadau Adfydus Plentyndod (ACEs), Cyfiawnder Troseddol ac Atal Trais, Iechyd Cyhoeddus Cymru. Athro Gwadd, Prifysgol Wrecsam.

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

CYDAG

AI ac Addysg: Datgloi Amser ar gyfer yr Hyn Sy'n Bwysig

Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cynnig cyfleoedd ymarferol i leihau llwyth gwaith staff ysgolion a rhyddhau mwy o amser ar gyfer yr hyn sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgwyr. Bydd y sesiwn hon yn edrych ar sut y gall athrawon ac arweinwyr ddefnyddio offer AI mewn ffordd ddiogel, gyfrifol ac effeithiol i gefnogi tasgau dyddiol megis cynllunio gwersi, creu adnoddau dysgu, addasu deunyddiau ar gyfer gwahanol alluoedd, paratoi asesiadau a drafftio cyfathrebiadau.



Cyflwynir gan:

Daron Harris

STEM Learning

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb - Uwchradd**

Seminarau a Siaradwyr

Darllen am Seminarau

Ffurflen Archebu Grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

13:30 - 14:20

Arfer dda o ddatblygu medrau darllen

Yn y seminar hwn byddwn yn rhannu arferion effeithiol mewn datblygu medrau darllen yn y sector cynradd.

Cyflwynir gan:

CYDAG

CYDAG

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

SEMINAR ADY

Datblygu Delwedd Gadarnhaol o'r Hunan ymhlith Disgyblion Niwrowahanol

Mae plant niwrowahanol yn aml yn gorfod llywio eu ffordd drwy system addysg sydd wedi'i chynllunio'n bennaf ar gyfer y mwyafrif niwronodweddiadol, yn academaidd ac yn gymdeithasol. Gall hyn effeithio ar y ffordd y mae plant niwro-wahanol yn gweld eu hunain, gan arwain at lai o hunanhyder, diffyg cymhelliant ac ymdeimlad o ddatgysylltiad. Bydd y seminar hon yn helpu staff i adnabod arwyddion o hunan-ganfyddiad negyddol mewn plant niwrowahanol ac archwilio ffyrdd ymarferol o'u helpu i ddatblygu hunan-barch a meithrin y ddelwedd gadarnhaol ohonynt eu hunain y maent yn ei haeddu.



Cyflwynir gan:

Chris Bonnello

Siaradwr Awtistiaeth a Niwroamrywiaeth

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

15:00 - 15:50

CAL:ON Cymru: Cryfhau Llythrennedd Iedled Cymru

Bydd y sesiwn ymarferol hon yn cefnogi arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr i ddatblygu dull cydlynol, ysgol gyfan o ymdrin â llythrennedd. Gan dynnu ar fframwaith llythrennedd strwythuredig cenedlaethol CAL:ON Cymru, byddwn yn archwilio sut mae ysgolion Iedled Cymru yn gwella deilliannau darllen ac ysgrifennu drwy addysgu gyfarwyddir gan dystiolaeth, asesu ac ymyrryd. Bydd cyfranogwyr yn gadael gyda fframwaith ymarferol ar gyfer adolygu eu darpariaeth bresennol, pennu blaenoriaethau a sefydlu arferion cyson ar draws grwpiau blwyddyn. Bydd y sesiwn hefyd yn darparu strategaethau ystafell dosbarth ymarferol, parod i'w defnyddio, y gellir eu rhoi ar waith ar unwaith. Mae'r holl ganllawiau ac adnoddau a drafodir yn rhad ac am ddim i ysgolion yng Nghymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn berthnasol i leoliadau cynradd, uwchradd ac ADY. Sesiwn ymarferol a pherthnasol yw hon, yn llawn syniadau y gellir eu gweithredu a'u rhoi ar waith yn syth yn ôl yn yr ysgol.



Cyflwynir gan:

Yr Athro Manon Jones

Prifysgol Bangor a CAL:ON Cymru

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

Mathemateg mewn Dosbarthiadau Cymysg eu Hoedran heb Ddyblu'r Gwaith: Gwneud Mathemateg Gymysg ei Hoedran yn Hylaw

Mae addysgu mathemateg mewn dosbarthiadau cymysg eu hoedran yn aml yn golygu diwallu anghenion dysgwyr o ddau, tri neu hyd yn oed bedwar grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, ni ddylai hynny olygu cynllunio a chyflwyno sawl gwers mathemateg ar wahân. Mae'r sesiwn ymarferol hon yn archwilio sut y gall athrawon nodi'r cysylltiadau rhwng gwahanol themâu mathemategol, sefydlu mannau cychwyn cyffredin a darparu lefel briodol o her i ddysgwyr sydd ar gamau gwahanol yn eu dysgu. Byddwn yn ystyried sut y gall trefnu'r cwricwlwm yn ofalus, cwestiynu, cynrychioli a chynllunio tasgau'n bwrpasol leihau llwyth gwaith athrawon wrth gynnal disgwyliadau uchel. Bydd cyfranogwyr yn gadael gyda dulliau ymarferol o wneud mathemateg mewn dosbarthiadau cymysg eu hoedran yn fwy hylaw, yn fwy pwrpasol ac yn fwy effeithiol o fewn y Cwricwlwm i Gymru.



Cyflwynir gan:

Toni Priddey

Ymgynghorydd Mathemateg - First4Maths Academy

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

Y Tu Hwnt i Chatbots: Canllaw i Athrawon ar DA Asentol mewn Addysg

Mae DA Cynhyrchiol yn ymateb i geisiadau. Mae DA Asentol yn mynd gam ymhellach, gan weithio tuag at nod penodol drwy gynllunio tasgau, defnyddio offer a gwirio ei waith ei hun. Mae'r seminar ymarferol a blaengar hon yn gwahanu'r ffeithiau oddi wrth y ffasiynau i archwilio beth allai DA Asentol ei olygu i athrawon ac ysgolion. Drwy enghreifftiau realistig o'r ystafell ddosbarth, bydd cyfranogwyr yn darganfod sut y gallai asiantau DA helpu i drawsnewid cynlluniau cwricwlwm yn adnoddau addysgu, addasu deunyddiau ar gyfer gwahanol ddysgwyr, dadansoddi gwaith dysgwyr a pharatoi adborth, tra yn sicrhau mai athrawon sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol. Gan dynnu ar waith a gydnabuwyd drwy'r Wobr Arloeswyr AI Asentol Innovate UK, bydd y sesiwn yn archwilio sut y gall y dechnoleg newydd hon leihau llwyth gwaith yn ystyrlon, gwella effeithlonrwydd a chefnogi addysgu a dysgu, tra'n pwysleisio pwysigrwydd goruchwyliaeth athrawon.



Cyflwynir gan:

Siôn Brown

Sylfaenydd AITutoring.me

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

Addysgu gyda DA heb Golli'r Dysgu: Strategaethau Ymarferol o Wyddor Dysgu

Beth yw rôl addysgu effeithiol pan all dysgwyr gynhyrchu atebion mewn eiliadau?

Gan symud o ddamcaniaeth i ymarfer, mae'r sesiwn hon yn defnyddio egwyddorion gwyddor dysgu a metawybyddiaeth i archwilio dulliau ymarferol o gefnogi dysgu gyda chymorth DA. Drwy enghreifftiau o'r ystafell ddosbarth, bydd cyfranogwyr yn ystyried sut i ysgogi meddwl cyn cyflwyno DA, helpu dysgwyr i benderfynu pryd a pham i'w ddefnyddio, annog holi ac ymholi yn hytrach na chwilio am atebion yn unig, gwerthuso gwybodaeth a gynhyrchir gan DA, a myfyrio ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu mewn gwirionedd. Bydd cyfranogwyr yn gadael gyda strategaethau ymarferol ar gyfer lleoliadau uwchradd ac addysg bellach y gellir eu haddasu ar unwaith.



Cyflwynir gan:

Dawn Taylor

Dirprwy Bennaeth | Ymchwilydd a Strategydd AI

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb - Uwchradd**

Seminarau a Siaradwyr

Darllen am Seminarau

Ffurflen Archebu Grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

CYDAG

15:00 - 15:50

Gwireddu Cynhwysiant: Dylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu, Deallusrwydd Artiffisial (AI) ac Addysgu o Ansawdd Uchel ar Waith

Drwy enghreifftiau ymarferol o'r ystafell ddosbarth, bydd cyfranogwyr yn ystyried sut y gall deallusrwydd artiffisial (AI), technoleg gynorthwyol a dulliau addysgu cynhwysol ymateb i amrywioldeb dysgwyr gan gynnal disgwyliadau uchel i bawb.
Bydd y sesiwn yn rhannu strategaethau ymarferol, syniadau cynllunio ac adnoddau myfyrio y gellir eu rhoi ar waith yn syth, Y nod yw cefnogi ysgolion i gryfhau eu cynnig cyffredinol a gwneud cynhwysiant yn rhan annatod o addysgu a dysgu o ddydd i ddydd, yn hytrach na'i ystyried fel ychwanegiad ar wahân.



Cyflwynir gan:

Dr Sarah Moseley
Ymgynghorydd Addysgol ac Arbenigwraig mewn Cynhwysiant, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Datblygiad Llythrennedd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

Dysgu: Y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu rhifedd.

Yn y cyflwyniad hwn, bydd swyddog dysgu, Rhian Carruthers sydd a phrofiad helaeth o arwain Mathemateg a Rhifedd yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i ysgolion er mwyn cryfhau datblygiad mathemateg a rhifedd ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Bydd cyfranogwyr hefyd yn cael trosolwg o'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol i gefnogi gwelliant parhaus mewn mathemateg a rhifedd.



Cyflwynir gan:

Rhian Carruthers
Ymgynghorydd Proffesiynol Rhifedd Dysgu

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

Cynnig Cenedlaethol i'r Gweithlu Addysg

Trosolwg o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg a phwysigrwydd uwchsgilio'r gweithlu er mwyn cyrraedd gofynion statudol y ddeddf. Cyflwyniad sy'n esbonio y cynnig sydd gan y Ganolfan ac amlinelliad o'r cyrsiau Dysgu Cymraeg sydd ar gael yn genedlaethol,yn rhad ac am ddim ar gyfer y gweithlu addysg.

Bydd cyfle i'r cyfranogwyr ar y dydd gofrestru ar gwrs gan holi pa lefel y'n addas ar eu cyfer. Bydd cyfle iddyn nhw gael blas ar yr amrywiaeth cyrsiau yn ystod y sesiwn, a bod y cyflwyniad hefyd yn cynnwys elfen ar gynllunio'r gweithlu i gwrdd â gofynion y ddeddf gan baratoi ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion dwy iaith ac ysgolion cyfrwng Cymraeg at y newidiadau.

Cyflwynir gan:

Cynrychiolydd o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

"Mae'r Sioe Addysg yn cynnig DPP ymarferol, perthnasol ac ysbrydoledig i bob aelod o staff."

TOCYNNAU SEMINARAU

Pris archebu'n gynnar:
£10
+ TAW
Ar gael hyd at hanner nos
23 EBRILL 2027

Pris cyn y Sioe:
£15
+ TAW
Ar gael hyd at hanner nos
8 MEHEFIN 2027

Pris ar y Diwrnod:
£20
+ TAW
Ar gael ar y diwrnod
11 MEHEFIN 2027

Lawrlwytho!

50% i ffwrdd

Cofiwch ein bod ni'n cynnig 50% i ffwrdd o archebion ysgol gyfan/ colegau / sefydliadau am amser cyfyngedig. Lawrlwythwch y ffurflen archebu!
Manteisiwch ar y cynnig yma cyn iddo ddod i ben!

GWNEWCH GOPI I POB AELOD STAFF OS GWELWCH YN DDA.

11 Mehefin 2027
Venue Cymru, Llandudno

Enw _____ Ysgol / Sefydliad _____

Cyfeiriad ebost_____ Teitl Swydd _____

(Sicrhewch fod eich cyfeiriad e-bost yn un unigol ac yn glir i'w ddarllen. Marciwch y tabl isod gyda'r seminarau yr hoffech eu mynychu.

	09:00 - 09:50	10:30 - 11:20	12:00 - 12:50	13:30 - 14:20	15:00 - 15:50
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Hapusrwydd yn Gyntaf: 14 Arfer sy'n Tanseilio Eich Llawenydd a Sut i'w Adfer! Action Jackson	Os Nad yw Cynllun A yn Gweithio - Beth yw Cynllun B? Strategaethau ymarferol pan nad yw dulliau rheoli ymddygiad traddodiadol yn gweithio Nicola S Morgan	Pan Fo Anghytuno: Ymdrin â Sgyrsiau Anodd yn Hyderus Nicola S Morgan	Emosiynau Mawr, Atebion Ymarferol: Deall y Parthau Rheoleiddio Emosiynol Karen Ferguson	Y Tu Hwnt i Chatbots: Canllaw i Athrawon ar DA Asentol mewn Addysg Siôn Brown
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Daliwch y Rhaff: Troi cynghreiriaeth yn weithredu bob dydd Joanne Lockwood	Hunanafarnu o Ansawdd Uchel a Gwella Ysgolion Gareth Coombes	Deallusrwydd Artiffisial, Perthyn a Dyfodol Addysg Ddynol Joanne Lockwood	Adeiladu Diwylliant Hyfforddi: Sut i ddefnyddio hyfforddiant i rymuso cydweithwyr a sbarduno gwelliant ysgol gyfan Jonathan Ferstenberg	Addysgu gyda DA heb Golli'r Dysgu: Strategaethau Ymarferol o Wyddor Dysgu Dawn Taylor
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Y Creigiau Cudd: Sut mae rhagfarnau gwybyddol yn dylanwadu ar benderfyniadau diogelu Delyth Lynch	Y 5 Strategaeth Allweddol ar gyfer Arwain Ystafell Ddosbarth Niwroamrywiol Colin Foley	Creu Velcro mewn Diwylliant Diogelu Delyth Lynch	ADHD, Awtisitiaeth a Llythrennedd: Cefnogi Plant a Phobl Ifanc yn yr Ystafell Ddosbarth Colin Foley	Mathemateg mewn Dosbarthiadau Cymysg eu Hoedran heb Ddyblu'r Gwaith: Gwneud Mathemateg Gymysg ei Hoedran yn Hylaw Toni Priddey
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Y Tu Hwnt i Flinder Proffesiynol: Sut i Greu Ysgol Lle Mae Staff yn Ffynnu, yn Aros ac ar eu Gorau Kelly Hannaghan	Mwy na Dim ond Awyr Iach: Llesiant yn y Dosbarth Awyr Agored Dr. Graham French	Arweinyddiaeth Feiddgar ar gyfer Cynhwysiant: Pan fo diwallu anghenion pob disgybl yn galw am wneud pethau'n wahanol Emma Noel Pinnock	Cadw i Fyny ynteu Ddal i Fyny? Sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd mewn Mathemateg Toni Priddey	Datblygu Delwedd Gadarnhaol o'r Hunan ymhlith Disgyblion Niwrowahanol Chris Bonnello
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Ymddygiad yw Cyfathrebu: Deall y neges y tu ôl i'r ymddygiad Laura Jackson	O Ddrama i Bresenoldeb: System Weithredu Newydd ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgol Julie Rees	Pan Fydd Pob Ymddygiad yn Adrodd Stori: Strategaethau Ymarferol i Gefnogi Dysgwyr ag Anghenion Iechyd Meddwl Cynyddol Kelly Hannaghan	Mae Presenoldeb yn Dechrau gydag Ymdeimlad o Berthyn: Strategaethau ymarferol i leihau absenoldeb Ian Curry	CAL:ON Cymru: Cryfhau Llythrennedd Iedled Cymru Professor Manon Jones
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Malio am Yma: Cynefin, Chwilfrydedd a Chwricwlwm sy'n Cyfrif Hywel Roberts	Dod â'r Wefr yn Ôl! Isabella Wallace	Mewnwelediadau gan Athro Awtistig: Diwallu Anghenion Plant Awtistig mewn Ysgolion Chris Bonnello	Paratoi Pobl Ifanc ar gyfer Byd sy'n Newid yn Gyflym: Pob Plentyn yn Wneuthurwr Newid Kelly Davies	Gwireddu Cynhwysiant: Dylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu, Deallusrwydd Artiffisial (AI) ac Addysgu o Ansawdd Uchel ar Waith Dr Sarah Moseley
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Hunanreoleiddio, Cymhelliant ac Ymgysylltiad: Ailfeddwl ynghylch parodrwydd i ddysgu mewn cyd-destunau ADY/SEND Emma Noel Pinnock	Gwella Darllen gyda Deallusrwydd Artiffisial: Strategaethau diogel ac ymarferol ar gyfer pob dysgwr Faye Palmer	Gadewch i Ni Ddweud... Stori, Sgwrs a 'Botheredness' yn y Cwricwlwm i Gymru Hywel Roberts	Creu a Chynnal yr Amodau i Ffynnu: Dysgu o Ddull sy'n Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Adfydus Plentyndod yng Nghymru Dr Joanne Hopkins	Dysgu: Y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu rhifedd. Rhian Carruthers
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Nid y Gyllideb sy'n Dal Eich Ysgol yn ÔL... Dyma yw'r Broblem... Sonia Gill	Pam eu bod yn gwybod beth i'w wneud... ond yn dal methu ei wneud? Laura Jackson	Yr Ystafell Ddosbarth y Maent yn Ei Chofio: Creu Diwylliant y Mae Plant yn Caru Bod yn Rhan Ohono, Heb Golli Eich Hun Jordan Firth	Pam Nad Yw Copïo Ysgolion Eraill yn Gweithio (Ond Mae Hyn yn ...!) Sonia Gill	Cynnig Cenedlaethol i'r Gweithlu Addysg Cynrychiolydd o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Addysgu a Dysgu Ffion Saynor	STEM Learning - Dysgu yn gyntaf, technoleg yn ail Daron Harris	Y Gwyddoniaeth a'r Seicoleg tu ol i Ddysgu Ddarllen Yr Athro Manon Jones	Arfer dda o ddatblygu medrau darllen CYDAG	
YSTAFELL I'W GADARNHAU	Darparu ar gyfer y disgybl cyfan Eleri Moss	Gosod Sylfaen Trochi Iaith yn y Blynyddoedd Cynnar a phwysigrwydd pontio ieithyddol gyda Ysgolion Cynradd. Mudiad Meithrin	Hyder i Ffynnu: Offer Ymarferol i Gefnogi Iechyd a Lles Dysgwyr Dyddgu Morgan - Hywel	AI ac Addysg: Datgloi Amser ar gyfer yr Hyn Sy'n Bwysig Daron Harris	
YSTAFELL I'W GADARNHAU		Mwy na Dysgu Tu Allan: Gwneud yr Amgylchedd Awyr Agored yn Rhan Weithredol o'r Dysgu Carol Murdoch	Mwy na Dysgu Tu Allan: Gwneud yr Amgylchedd Awyr Agored yn Rhan Weithredol o'r Dysgu *(Ailadrodd)* Carol Murdoch	Un Tro Allan ar y Cae Chwarae: Does dim rhai bod yn storïwr, ond cael llygad am stori Carol Murdoch	

SEMINARAU ADY

Ebostiwch rhain i ni: einir@sioeaddysggenedlaethol.com

*PWYSIG: COFIWCH EDRYCH AR EIN SAFWE AM Y FFURFLEN ARCHEBU DIWEDDARAF GAN FOD RHAIN YN NEWID YN DDYDDIOL!

Pris seminar os yn archebu'n fuan £10.00 + TAW (nes 23 Ebrill 2027) | £15.00 + TAW pris arferol | £20.00 + TAW - archebu ar y diwrnod. 50% i ffwrdd archebion grŵp dros 10+ (nes 23 Ebrill 22027)

PWYSIG: NID ALLWN WNEUD UNRHYW NEWID I'CH SEMINAR AR OL 3yh dydd Gwener, 4 MEHEFIN 2027

SGANIWCH

Manylion Anfoneb: (Os ydych chi'n gwneud archebiad grŵp, does dim ond rhaid llenwi'r manylion isod un waith).

Enw Cyswllt: _____ Cyfeiriad Ebost: _____

Address:_____ Rhif Ffôn: _____

Côd Post: _____Rhif Archeb: _____

Ticiwch yma i dderbyn TaA - Ewch i'n gwefan: www.nationaleducationshow.com/terms-conditions/ neu sganiwch fan hyn i'w gweld.